



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

**YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I SEFYDLU
DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD NEWYDD AR
GYFER DATBLYGIAD TAI LLANILID DRWY YMESTYN
DARPARIAETH YSGOL GYNRADD DOLAU**

Cynnwys

Cyflwyniad i'r Cynnig	3
Â phwy fyddwn ni'n ymgynghori?	4
Beth fydd y broses ymgynghori yn ei gynnwys?	4
Yr hyn fydd angen i chi'i ystyried	5
Lleisio'ch barn?	6
Cefndir i'r Cynnig	7
Darpariaeth arfaethedig newydd ar gyfer datblygiad Llanilid.....	7
Gwybodaeth am Ysgol Gynradd Dolau	10
Trefniadau Llywodraethu, Staff a Derbyn Disgyblion	13
Manylion ariannol	13
Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP).....	13
Y broses statudol	14
Cynllun y safle ar gyfer datblygiad Llanilid	15
Ffurflen ar gyfer Ymateb i'r Ymgynghoriad	16

Cyflwyniad i'r Cynnig

Hoffai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf geisio barn ystod eang o randdeiliaid o ran cynnig i sefydlu darpariaeth addysg gynradd ar gyfer datblygiad tai newydd yn Llanilid, Llanharan.

Cafodd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer adeiladu 1,850 o dai ar safle hen bwl glo brig Llanilid, Llanharan, ei gymeradwyo gan Bwyllgor Materion Rheoli Datblygu'r Cyngor ym mis Ionawr 2016. Roedd hynny'n dilyn dros chwe mlynedd o drafod ac ystyried y cynigion rhwng swyddogion y Cyngor ac asiantau a oedd yn cynrychioli perchnogion y tir. Roedd yr oedi o ran gwneud cais am ganiatâd cynllunio a'i gymeradwyo o ganlyniad i gymhlethdod a graddfa fawr y cynigion, yn ogystal â'r ffaith i'r asiantau gwreiddiol, a oedd yn gyfrifol am y caniatâd cynllunio, fynd yn nwylo gweinyddwyr.

Yn rhan o'r broses gynllunio, bydd y Cyngor yn casglu Ardoll Seilwaith Cymunedol ar bob annedd fydd yn cael ei hadeiladu. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r seilwaith hanfodol sydd ei hangen i gefnogi datblygiad tai o'r faint. Cafodd ei gytuno y bydd ysgol gynradd newydd â chyfanswm o 540 o leoedd (gan gynnwys darpariaeth feithrin) yn rhan o'r seilwaith hanfodol. Mae'r datblygwyr tai wedi gofyn am ganiatâd i adeiladu adeilad yr ysgol a'i roi i'r Cyngor ar adeg wedi'i gytuno. Bydd hyn yn daliad rhannol o'u goblygiad Ardoll Seilwaith Cymunedol; mae'r Cyngor wedi derbyn a chytuno â hyn. Mae cais cynllunio pellach am ganiatâd llawn i ddechrau cam cyntaf o'r gwaith adeiladu tai wedi cael ei dderbyn a bydd yn cael ei ystyried gan ein Pwyllgor Cynllunio a Datblygu ym mis Medi 2018; os bydd caniatâd yn cael ei gymeradwyo, bydd y gwaith adeiladu tai yn dechrau cyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad llawn ar effaith bosibl y datblygiad mawr yma ar ddarpariaeth ysgolion bresennol yn yr ardal yma. Mae hefyd wedi cyfrif nifer y disgyblion fydd yn debygol o fyw ar y datblygiad yma. Mae'r cyfrifiad yma wedi'i amlinellu a'i esbonio mewn dogfen o'r enw 'Canllawiau Cynlluniau Atodol', sydd ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho o wefan y Cyngor www.rctcbc.gov.uk. Yr adran berthnasol o'r ddogfen yma yw 'Goblygiadau Cynllunio'.

I sicrhau bod modd bodloni'r galw am leoedd ysgol yn y dyfodol yn ôl iaith ddewisol rhieni, y cynnig yw sefydlu adeilad ysgol newydd, yn y lle cyntaf, yn **estyniad i ddarpariaeth ddwy iaith Ysgol Gynradd Dolau**. Yn rhan o fenter Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y bobl sy'n medru'r Gymraeg i filiwn erbyn 2050, bwriad y Cyngor yw cynyddu nifer y lleoedd ysgol yn y sector Ysgolion Cyfrwng Cymraeg i annog rhagor o rieni i ddewis y cyfrwng yma o addysg ar gyfer eu plant. Mae Ysgol Gynradd Dolau yn cynnig darpariaeth yn y ddwy iaith, lle mae gan rieni ryddid i ddewis ym mha iaith y bydd eu plant yn derbyn eu haddysg.

Mae'r datblygwyr yn cynnig adeiladu adeilad newydd yr ysgol mewn cyfnod sengl. Mae hyn yn golygu bydd nifer sylweddol o leoedd dros ben pan fydd yn agor yn 2021. Bydd y lleoedd yn cael eu llenwi pan fydd y tai newydd yn cael eu hadeiladu a'u meddiannu. Serch hynny, rydyn ni wedi penderfynu trin yr adeilad newydd fel estyniad i ysgol sydd wedi hen ennill ei phlwyf yn y lle cyntaf, er mwyn osgoi'r sefyllfa annerbyniol o agor ysgol newydd gyda nifer isel iawn o ddisgyblion ar ddiwrnod 1. Mae Ysgol Gynradd Dolau yn ysgol lwyddiannus iawn, fel sydd wedi'i ategu gan ddata a gwybodaeth y ddogfen yma. Mae'r

ysgol wedi'i lleoli o fewn pellter byr (tua 400 metr) o safle'r adeilad newydd. Bydd trin y ddarpariaeth newydd fel estyniad i'r ysgol lwyddiannus yma, yn lle endid ar wahân, yn caniatáu i brif dîm arwain a llywodraethwyr Dolau weithio gyda'r Cyngor i sefydlu darpariaeth ysgol newydd o dan eu cyfarwyddyd arbenigol. Bydd hyn hefyd yn osgoi'r angen i benodi Pennaeth newydd a threfnu strwythur newydd o ran staff ar gyfer ysgol newydd a fydd, o bosibl, yn agor gyda nifer isel o ddisgyblion. Bydd modd i Bennaeth Dolau ddefnyddio'r adeilad newydd i gynnal dosbarthiadau rhwng y ddau adeilad fel bo'n briodol i wneud yn fawr o'r holl adnoddau sydd ar gael. Bydd yr ysgol yn 'tyfu' wrth i ragor o dai gael eu hadeiladu.

Mae gwaith adeiladu 1,850 o anheddau yn cael ei ystyried yn gam cyntaf o ddatblygiad fydd yn debygol o fod yn fwy o lawer dros y blynyddoedd nesaf. Mae digon o dir ar gael yn yr ardal yma i adeiladu 3000+ o dai ychwanegol ac os bydd hyn yn cael ei wireddu, bydd angen ystyried sefydlu darpariaeth addysg bellach, a hynny yn y sector ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, i wasanaethu'r gymuned ddatblygol yma. Bydd adeilad newydd yr ysgol yn rhan o'r ddarpariaeth addysg fydd yn gwasanaethu'r ardal ehangach yma. Erbyn y cyfnod yma, bydd ei darpariaeth yn cael ei sefydlu o dan reolaeth a chyfarwyddyd Ysgol Gynradd Dolau. Ar yr adeg yma, bydd y Cyngor yn cynnal asesiad o'r gofynion a'r galw am leoedd ysgol, gan gynnwys rhieni yn mynegi'u dewis tebygol o ran iaith, ac yn ystyried sefydlu adeilad ysgol gynradd Llanilid yn ysgol newydd yn ei rhinwedd ei hun.

Â phwy fyddwn ni'n ymgynghori?

Byddwn ni'n ceisio barn y rhanddeiliaid canlynol:

- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Dolau
- Disgyblion Ysgol Gynradd Dolau
- Rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau o staff Ysgol Gynradd Dolau
- Llywodraethwyr, disgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau o staff Ysgol Llanhari ac Ysgol Gyfun y Pant
- Cyrff llywodraethu eraill o ysgolion cynradd cyfagos, gan gynnwys y rheiny sydd mewn ardaloedd awdurdod lleol cyfagos
- Corff llywodraethu Ysgol Gyfun Pencoed
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Gweinidog Cymru dros Addysg a Sgiliau
- Aelodau'r Cynulliad ar gyfer etholaethau Rhondda Cynon Taf
- Aelodau Seneddol etholaethau Rhondda Cynon Taf
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff
- Consortïwm Addysg Canolbarth y De
- Cymdeithas Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
- Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
- Y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cyngor Cymuned Llanharan
- Cyngor Cymuned Llanhari
- Comisiynydd y Gymraeg
- Menter Iaith
- Mudiad Meithrin
- Awdurdodau Lleol Cyfagos

ac Aelodau Cynulliad rhanbarthol
ar gyfer yr ardal

Beth fydd y broses ymgynghori yn ei gynnwys?

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 1 Hydref 2018 a chaiff ei gwblhau am 5pm ar 31 Rhagfyr 2018. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei goladu a'i grynhoi, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ym mis Ionawr 2019. Bydd yr adroddiad yma ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor, a bydd copïau papur ar gael ar gais (gweler y manylion ar dudalen 6 o'r ddogfen yma).

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu - yn seiliedig ar yr adborth - a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, newid y cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen ag ef. Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig yma.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi, gan ddarparu cyfnod 28 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud hi'n ofynnol bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion, yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn ystyried gwrthwynebiadau yn rhai statudol, **rhaid** eu cyflwyno'n ysgrifenedig / drwy e-bost, a'u hanfon at y Cyngor o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y cynnig ei gyhoeddi.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr hysbysiad statudol yng nghyfarfod nesaf (cyfleus) y Cabinet ac yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd Cyfarwyddwr Addysg y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu gan ddarparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymateb iddyn nhw cyn pen 7 diwrnod o'r diwrnod penderfynu. Bydd yr adroddiad ymgynghori yma ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor hefyd, a bydd copïau ar gael ar gais o'r cyfeiriadau sydd ar dudalen 6 yn y ddogfen yma.

Os yw Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, caiff y cynnig ei weithredu yn unol â'r dyddiad a gafodd ei roi yn yr hysbysiad statudol neu unrhyw ddyddiad sydd wedi'i addasu, wedi hynny. O ran y cynnig yma, y dyddiad gweithredu yw **1 Medi 2021** ar gyfer y ddarpariaeth ysgol estynedig yn Ysgol Gynradd Dolau. Mae'r dyddiad yn dibynnu ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan y datblygydd tai felly mae'n bosibl y bydd hyn yn newid.

Yr hyn fydd angen i chi'i ystyried

Mae gweddill y ddogfen ymgynghori yn llunio'r sail resymegol ar gyfer ymestyn darpariaeth ysgol gynradd ddwy iaith yn Ysgol Gynradd Dolau. Hoffen ni i chi ystyried yr wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn y ddogfen yma, a chlywed eich barn ynglŷn ag a ydych chi'n cefnogi'r cynigion sydd wedi eu nodi neu beidio.

Lleisio'ch barn

Bydd achlysuron ymgynghori yn cael eu cynnal, a bydd croeso i chi ddod i'r cyfarfod priodol.

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Cyfadran	Amser/dyddiad	Lleoliad
Ysgol Gynradd Dolau	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	Dydd Iau 18 Hydref 2018, 3.30pm – 4.15pm	Ysgol Gynradd Dolau
Ysgol Gynradd Dolau	Cyngor yr Ysgol	Dydd Iau 18 Hydref 2018, 2pm	Ysgol Gynradd Dolau
Aelodau o'r gymuned leol	Sesiwn galw heibio ac arddangosfa ar gyfer rhieni ac aelodau o'r cyhoedd	Dydd Iau 18 Hydref 2018, 4.30pm – 6pm	Ysgol Gynradd Dolau

Mae holiadur ymgynghori wedi'i gynnwys. Bydd hwn ar gael hefyd yn y sesiwn galw heibio uchod ac ar wefan y Cyngor:

www.rctcbc.gov.uk/YmgynghoriadauYnglŷnAgYsgolion

Yn yr holiadur hefyd, mae modd i chi gofrestru'ch dymuniad i gael eich hysbysu am gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad i Gabinet y Cyngor.

Mae hefyd croeso i chi roi eich barn, neu ofyn unrhyw gwestiynau a allai fod gyda chi mewn ysgrifen at:

Cyfarwyddwr Addysg

Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Tŷ Trevithick

Abercynon CF45 4UQ Ffôn (01443) 744227 Ffacs (01443) 744224

E-bost: cynllunioysgolion@rctcbc.gov.uk

Dylai pob gohebiaeth ddod i law **erbyn 5pm ddydd Llun 31 Rhagfyr 2018.**

Nodwch na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif yn wrthwynebiadau i'r cynnig. Dim ond ar ôl cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol y mae modd anfon gwrthwynebiadau.

Darpariaeth ysgol arfaethedig newydd ar gyfer datblygiad tai Llanilid

Fel sydd wedi'i amlinellu uchod, mae gofyn i ddarpariaeth yr ysgol newydd fod yn addas ar gyfer y datblygiad arfaethedig ar safle hen bwl glo brig Llanilid, Llanharan. Mae'n safle tai strategol yng Nghynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf 2006-2021; mae adeilad cynradd newydd ar gyfer y datblygiad wedi'i nodi yn y cynllun yn ofyniad polisi ar gyfer seilwaith hanfodol i gefnogi'r datblygiad.

Y cynnig yw cartrefu hyd at 480 o ddisgyblion yn adeilad newydd yr ysgol gynradd, yn ogystal â chynnig 60 o leoedd meithrin rhan amser, ar gyfer plant 3-11 oed. Bydd yr adeilad yn cael ei greu a'i sefydlu'n estyniad i Ysgol Gynradd Dolau yn y lle cyntaf, felly bydd yn cynyddu'r nifer uchaf o leoedd sydd gan yr ysgol ddwy iaith yma i 921, yn ogystal â 124 o leoedd meithrin rhan amser. Nifer derbyn disgyblion fydd 131 y grŵp blwyddyn, a'r awdurdod derbyn disgyblion fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae polisi derbyn disgyblion yr Awdurdod Lleol yn cael ei amlinellu yn y ddogfen 'Dechrau'r Ysgol' sy'n cael ei diweddarau bob blwyddyn. Mae'n cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cais am le mewn ysgol, a'r meini prawf sy'n cael ei ddefnyddio i ddyrannu lleoedd os bydd rhagor o geisiadau yn dod i law na nifer y lleoedd sydd ar gael. Mae modd gweld a lawrlwytho fersiwn presennol o'r ddogfen (ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018-2019) ar wefan y Cyngor:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/SchoolsandLearning/Applyingforaschoolplace/RelatedDocuments/1819/StartingSchool201819.pdf>.

Bydd safle'r ddarpariaeth newydd, fydd yn rhan o'r estyniad, yn cael ei leoli ar y dde ar ben y safle datblygu, cyfagos â safle presennol Ysgol Gynradd Dolau. Mae cynllun safle ar gyfer y datblygiad tai sy'n dangos lleoliad arfaethedig adeilad yr ysgol yn rhan o'r ddogfen yma er gwybodaeth (gweler tudalen 15). Bydd gan adeilad yr ysgol 16 ystafell ddosbarth gyffredinol, uned feithrin fawr sydd â lle i 60 o blant (ar sail rhan amser) a'r ystafelloedd ategol cyffredinol sy'n gysylltiedig ag ysgol gynradd, er enghraifft neuadd aml-dddefnydd, cegin, ystafell staff, swyddfeydd, toiledau, stordai ac ystafelloedd newid. Bydd y mannau allanol yn cynnwys iard chwarae tarmac, maes parcio, ardal gemau aml-dddefnydd a chae chwarae bydd modd i'r gymuned leol ei ddefnyddio. Bydd y cyfleusterau chwaraeon hefyd ar gael i Ysgol Gynradd Dolau eu defnyddio. Gan fod y ddau adeilad yn agos i'w gilydd, bydd trefniadau yn cael eu gwneud i greu mynediad rhwng y ddau safle er mwyn sicrhau llwybr cerdded diogel fydd yn cynnwys yr Ysgol Gynradd Dolau estynedig.

Bydd yr adeilad newydd yn gwbl hygyrch i bawb a bydd yn bodloni pob gofyniad a darpariaeth Deddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd yr adeilad yn cael ei adeiladu gan Persimmon Homes o dan gyfarwyddyd a goruchwyliaeth yr awdurdod lleol. Bydd yr adeilad yn cael ei roi i'r Cyngor ar ôl ei gwblhau a fydd, yn ôl yr amserlen, yn cyd-daro â gwaith adeiladu'r 299^{fed} annedd ar y datblygiad.

Mae ysgolion dalgylch datblygiad tai Llanilid fel a ganlyn:

Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg a Chymraeg – Ysgol Gynradd Dolau.

Bydd dalgylch Ysgol Gynradd Dolau yn cael ei ehangu i gynnwys datblygiad tai newydd Llanilid ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg a Chymraeg.

Mae'r ysgolion uwchradd cysylltiedig y byddai disgyblion yr ysgolion, sydd wedi'u nodi ar y dudalen nesaf, yn trosglwyddo iddyn nhw (blwyddyn 7), yn ddarostyngedig i ddewis y rhieni a chais llwyddiannus fel a ganlyn:

Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg – Ysgol Llanhari
Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg – Ysgol Gyfun y Pant

Er mai Ysgol Gyfun y Pant yw ysgol benodol dalgylch y datblygiad yma, mae ysgol agosach sy'n cynnig addysg uwchradd, sef Ysgol Gyfun Pencoed, sydd wedi'i lleoli ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd unrhyw blant sy'n byw ar ddatblygiad Llanilid sy'n gwneud cais am le ym Mhencoed ac yn llwyddiannus yn derbyn cludiant am ddim i'r ysgol yma gan mai hon yw'r ysgol agosaf i'w cyfeiriad cartref. Hefyd mae hi y tu allan i'r 'pellter cymwys', sef dwy filltir, sy'n cael ei weithredu gan Gyngor RhCT ar gyfer darpariaeth cludiant ysgol. Does dim llwybr cerdded ar gael i Bencoed o Lanilid, felly bydd unrhyw ddisgyblion nad ydyn nhw'n gymwys o ran meini prawf pellter yn dal yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim am y rhesymau yma.

Rhaid nodi bod dalgylchoedd pob ysgol yn ddarostyngedig i adolygu rheolaidd ac mae'n bosibl bydd hyn yn newid yn rhan o'r broses adolygu yma. Mae'n debygol y bydd datblygiadau tai pellach, helaeth yn y rhan yma o'r Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol. Bydd adeiladu darpariaeth ysgol bellach yn angenrheidiol i gefnogi'r ehangiad yma. O ganlyniad i hyn, bydd angen adolygu'r dalgylchoedd yn rheolaidd wrth i waith datblygu fynd rhagddo, yn enwedig yr ysgolion uwchradd wedi'u nodi uchod. Byddai newidiadau i'r cydgysylltiadau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn anochel, pe bai ysgol uwchradd newydd yn agor yn y dyfodol.

Fel sydd wedi'i nodi yng nghyflwyniad y ddogfen yma, unwaith bydd y datblygiad tai wedi'i hen sefydlu a bydd nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Dolau yn cynyddu i lenwi'r lleoedd gwag fydd yn cael eu creu yn sgil yr adeilad newydd, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i wneud yr adeilad newydd yn ysgol ar wahân. Bydd penderfyniad ynghylch cyfrwng yr ysgol newydd hefyd yn cael ei wneud ar yr adeg yna.

Mae'n ddyletswydd statudol ar yr Awdurdod i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i "bellter cerdded" o'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ysgol yn y dalgylch, boed hynny'n ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a Saesneg, neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio "pellter cerdded" yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg gynradd a thair milltir i bob disgybl o oedran addysg uwchradd.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r disgresiwn sydd wedi'i roi iddo dan ddarpariaethau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 er mwyn cynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion fel a ganlyn:

- Mae'r maen prawf i'w gymhwyso ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion ysgolion cynradd i'w hysgol addas agosaf wedi'i bennu'n 1½ milltir, o'i gymharu â'r 2 filltir sy'n ofynnol dan y Mesur.

- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, yn cael ei ddarparu i blant sy'n bodloni'r maen prawf 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed), yn hytrach nag o ddechrau addysg orfodol (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed) fel sy'n ofynnol gan y Mesur.

- Mae'r maen prawf i'w gymhwyso ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion ysgolion uwchradd i'w hysgol addas agosaf wedi'i bennu'n 2 milltir, o'i gymharu â'r 3 filltir sy'n ofynnol dan y Mesur.

- Mae cludiant am ddim yn cael ei ddarparu ar gyfer myfyrwyr ôl-16 oed sy'n bodloni'r meini prawf 2 filltir am ddwy flynedd ar ôl diwedd addysg orfodol, yn hytrach na hyd ddiwedd addysg orfodol fel sy'n ofynnol gan y Mesur. Mae'r ddarpariaeth yma'n berthnasol i ddisgyblion amser llawn sy'n mynychu'r ysgol neu'r coleg agosaf i'w cartrefi sy'n darparu'r cwrs cymeradwy maen nhw am ei astudio.

- Darparu cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf (gyda golwg ar yr hyn sy wedi'i bennu uchod) yn unol â thueddiadau crefyddol penodol.

- Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ardal dalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol ddwy iaith, Ysgol brif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wedi mabwysiadu hawliau plentyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig, sydd yn cael eu mynegi mewn saith nod craidd, hynny yw, bod pob plentyn a pherson ifanc:

1. yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;
2. yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
3. yn mwynhau'r iechyd gorau posibl, yn ddiogel rhag cael eu cam-drin, eu herlid a'u cam-fanteisio arnyn nhw;
4. yn cael mynediad i weithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
5. yn cael dweud eu dweud, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
6. â chartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol;
7. heb fod o dan anfantais oherwydd tlodi.

Rydyn ni o'r farn y bydd y cynnig yma o fudd i'r plant fydd yn mynd i'r ysgol newydd, a'r plant fydd yn parhau i fynd i Ysgol Gynradd Dolau yn unol â'r saith nod craidd wedi'u nodi uchod.

Gwybodaeth am Ysgol Gynradd Dolau

Mae Ysgol Gynradd Dolau yn ysgol gynradd gymuned ddwy iaith wedi'i lleoli ar Heol Pen-y-bont, Llanharan. Mae gan safle yr ysgol adeilad traddodiadol a gafodd ei adeiladu yn 1928 (sydd â statws Adeilad Rhestredig Gradd II), bloc modern ac estyniad i'r neuadd a gafodd ei ychwanegu yn 2009. Yn seiliedig ar arolwg adeiladau sydd wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, mae Ysgol Gynradd Dolau wedi'i graddio'n B ar gyfer cyflwr, a B ar gyfer addasrwydd (lle A yw'r gorau a D yw'r gwaethaf o ran safon). Y ffigwr presennol ar gyfer gwaith cynnal a chadw fyddai'n ddymunol ei gynnal ar yr ysgol yw £414,000.

Mae nifer y disgyblion sydd wedi mynychu Ysgol Gynradd Dolau dros y pedair blynedd diwethaf yn cael ei dangos isod. Mae'r rhain yn dod o'r Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) y mae'n orfodol i'w gynnal ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae'r holl ddata yn cael ei rannu rhwng adrannau Saesneg (S) a Chymraeg (C) yr ysgol:

Ysgol	Ystod oedran	Nifer uchaf y lleoedd (ysgol gyfan)	Ion 2014	Ion 2015	Ion 2016	Ionawr 2017	Ion 2018
Ysgol Gynradd Dolau (C)	3 - 11	441	188	182	177	176	182
Ysgol Gynradd Dolau (S)	3 - 11	441	198	224	235	231	243

Nifer y disgyblion meithrin (cyfanswm o ddisgyblion)

Ysgol	Ion 2014	Ion 2015	Ion 2016	Ion 2017	Ion 2018
Ysgol Gynradd Dolau (C)	23	20	24	26	19
Dolau Cynradd (S)	43	42	38	38	43

Rhagolygon pum mlynedd ar gyfer yr ysgol:

Ysgol	Nifer uchaf y lleoedd (ac eithrio'r dosbarth meithrin)	Ion 2019	Ion 2020	Ion 2021	Ion 2022	Ion 2023
Ysgol Gynradd Dolau (C)	441	163	157	148	146	141

Ysgol Gynradd Dolau (S)	441	250	265	262	256	248
-------------------------	-----	-----	-----	-----	-----	-----

Safonau Ysgolion Cynradd

Mae'r tablau isod yn nodi cyflawniad dwy adran Ysgol Gynradd Dolau o ran prif fesurau cyflawniad addysgol dros y tair blynedd diwethaf ac yn cymharu'r ysgol ag ysgolion tebyg ar draws Cymru yn seiliedig ar brydau ysgol am ddim.

	Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen					
	2015 %		2016 %		2017 %	
Pynciau	Ysgol Gynradd Dolau (C)	Ysgol Gynradd Dolau (S)	Ysgol Gynradd Dolau (C)	Dolau Cynradd (S)	Ysgol Gynradd Dolau (C)	Ysgol Gynradd Dolau (S)
Dangosydd y Cyfnod Sylfaen	97 (1)	93.1 (2)	96.4 (1)	94.3 (2)	95.2 (2)	92.3 (3)
Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywioldeb	100 (1)	96.6 (3)	100 (1)	100 (1)	100 (1)	100 (1)
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Saesneg/Cymraeg)	97 (2)	93.1 (2)	96.4 (2)	97.1 (1)	95.2 (2)	92.3 (3)
Datblygiad Mathemategol	97.2 (2)	93.1 (2)	96.4 (2)	94.3 (3)	95.2 (2)	92.3 (3)

Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn y tabl uchod yn cymharu'r ysgol ag ysgolion tebyg ar draws Cymru yn seiliedig ar brydau ysgol am ddim. Mae'r cyflawniad yn cael ei gymharu gan ddefnyddio chwarterlau meincnod, 1 yw'r uchaf a 4 yw'r isaf.

	Deilliannau Cyfnod Allweddol 2					
	2015		2016		2017	
Pynciau	Ysgol Gynradd Dolau (C)	Ysgol Gynradd Dolau (S)	Ysgol Gynradd Dolau (C)	Ysgol Gynradd Dolau (S)	Ysgol Gynradd Dolau (C)	Ysgol Gynradd Dolau (S)
Saesneg	95.8 (2)	92.0 (3)	92.3 (3)	97.2 (2)	100 (1)	100 (1)
Cymraeg Iaith Gyntaf	95.8 (2)	Ddim yn berthnasol	92.3 (2)	Ddim yn berthnasol	100 (1)	Ddim yn berthnasol
Mathemateg	100 (1)	92.0 (3)	100 (1)	94.4 (3)	100 (1)	100 (1)
Gwyddoniaeth	100 (1)	92.0 (4)	100 (1)	100 (1)	100 (1)	100 (1)
Dangosydd Pynciau Craidd	95.8 (2)	92.0 (3)	92.3 (3)	94.4 (2)	100 (1)	100 (1)

Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn y tabl uchod yn cymharu'r ysgol ag ysgolion tebyg ar draws Cymru yn seiliedig ar brydau ysgol am ddim. Mae'r cyflawniad yn cael ei gymharu gan ddefnyddio chwarterlau meincnod, 1 yw'r uchaf a 4 yw'r isaf.

Mae presenoldeb disgyblion yr ysgol dros y tair blynedd diwethaf wedi'i nodi isod, nodwch mai dyma ddata ar gyfer yr ysgol gyfan:

Canran y sesiynau hanner diwrnod a gafodd eu mynychu gan ddisgyblion o oedran ysgol statudol yn ystod y flwyddyn academiaidd						
Ysgol	2015	Chwarterl Meincnod 2015	2016	Chwarterl Meincnod 2016	2017	Chwarterl Meincnod 2017
Ysgol Gynradd Dolau	95.5	2	95.1	3	95.6	2

Cafodd Ysgol Gynradd Dolau ei harolygiad diwethaf gan Estyn ym mis Gorffennaf 2015. Yn ôl yr arolygiad, roedd cyflawniad presennol yr ysgol i'w weld yn dda, ac roedd ei rhagolygon gwella hefyd yn dda.

Nododd Estyn y dylai'r ysgol wneud y canlynol, er mwyn adeiladu ar y cynnydd sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn:

- Darparu rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau meddwl ar draws y cwricwlwm, yn enwedig cyfnod allweddol 2.
- Sicrhau cysondeb o ran marcio fel bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth well o'r hyn mae angen iddyn nhw ei wneud i wella eu gwaith.

Mae Gwasanaethau Gwella Ysgolion y Cyngor wedi cael eu darparu gan Consortiwm Canolbarth y De, sef gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol ar gyfer y pum awdurdod, hynny yw, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Mae ysgolion yn cael eu graddio yn ôl lliwiau Gwrdd, Melyn, Ambr neu Goch o ran eu safonau. Mae'r Consortiwm yn categoreiddio cyflawniad pob ysgol yn y rhanbarth ac o'r farn bod:

Ysgol Gynradd Dolau wedi cael ei rhoi yn y categori ysgolion 'Gwyrdd', y lefel uchaf mae modd ei chyflawni. Mae'r sgôr yma yn golygu bod gan yr ysgol enw da o gynnal lefel uchel o ddeilliannau dysgwyr, mae'r ysgol yn dangos gwydnwch ar bob lefel ac yn cael ei herio i symud ymlaen at ragoriaeth, neu'n ei chynnal.

Rhagolygon ar gyfer yr Ysgol Gynradd Dolau estynedig

Y bwriad yw gweithredu'r cynnig yma ym mis Medi 2021. Mae'r datblygwr tai wedi rhoi gwybod i ni am nifer yr unedau sy'n debygol o gael eu cwblhau bob blwyddyn o 2019 ymlaen. Rydyn ni felly wedi ailgyfrif ein rhagolygon ar gyfer y dyfodol rhwng 2021 a 2023 (diwedd ein cyfnod presennol o ran rhagolygon) ar gyfer Ysgol Gynradd Dolau gyda'r adeilad newydd fel estyniad i'w darpariaeth, i gynnwys effaith y datblygiad tai fel a ganlyn:

Ysgol	2021	2022	2023
Dolau Gynradd	534	566	596

Bydd gwaith adeiladu tai yn parhau nes bydd y cynllun, sef 1,850 o dai, yn cael ei gwblhau. Bydd nifer y disgyblion yn parhau i gynyddu'n gyson dros y blynyddoedd dilynol. Mae hyn yn debygol o gymryd o leiaf 10 mlynedd, yn seiliedig ar raddfa amcangyfrifedig o ran cwblhau tai wedi'u darparu gan y datblygwyr.

Trefniadau Llywodraethu, Staff a Derbyn Disgyblion

Bydd corff llywodraethu a thîm rheoli presennol Ysgol Gynradd Golau yn aros yn eu lle gan fod y ddarpariaeth newydd yn cael ei chreu'n estyniad i'r ysgol, yn hytrach nag ysgol newydd ar wahân. Wrth i nifer y disgyblion gynyddu ar ôl i'r tai newydd gael eu cwblhau, bydd angen i'r corff llywodraethu adolygu ei strwythur staff yn rheolaidd a phenodi rhagor o staff yn ôl yr angen. Bydd rhieni yn gwneud cais am le yn yr un modd ag y maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd. Mae'r adeilad newydd, sy'n cael ei ddosbarthu'n estyniad, wedi'i leoli tua 5 munud i ffwrdd ar droed o adeiladau presennol Ysgol Gynradd Dolau, felly fydd dim newidiadau i deithiau i'r ysgol, amseroedd teithio neu gymhwyster cludiant.

Cyfrifoldeb y Pennaeth a'r corff llywodraethu fydd rheoli defnydd yr adeilad newydd, ond byddwn ni'n disgwyl iddyn nhw wneud yn fawr o'r adeilad a chyfleusterau newydd drwy drosglwyddo rhai o ddosbarthiadau presennol yr ysgol i'r adeilad pan fydd e'n agor.

Gwybodaeth Ariannol

Fydd dim arbedion ariannol yn cael eu gwneud o ganlyniad i'r cynigion yma gan y byddwn ni'n creu darpariaeth newydd trwy estyniad i ddarpariaeth bresennol, heb orfod cau ysgol. Bydd y datblygwyr tai yn talu costau cyfalaf yr adeilad newydd yn rhan o'u cyfraniadau gofynnol i ddarparu'r seilwaith angenrheidiol i wasanaethu eu datblygiad. Bydd hyn yn cael ei dalu yn rhan o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol mae rhwymedigaeth arnyn nhw i'w bodloni.

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP)

Mae rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r ddogfen yma yn nodi sut y mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu hybu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, sut y mae'n bwriadu gweithio tuag at gynyddu nifer y plant sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, a sut mae modd iddo helpu i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae modd gweld Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg RhCT a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor: <https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/WelshServices/Relateddocs/CynllunStrategolyGymraegmewnAddysg20172020.pdf>.

Ymhlith y camau gweithredu a deilliannau y bydd y Cyngor yn ymgymryd â nhw i helpu i gyflawni'r targedau wedi'u gosod yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, trwy gynyddu nifer y plant 7 oed sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, fydd:

- Adeiladau ysgol newydd a gwell sydd â lefelau priodol o leoedd ar gael i fodloni'r rhagolygon o ran galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu dalgylchoedd.

Bydd yr estyniad i ddarpariaeth ddwy iaith Ysgol Gynradd Dolau yn golygu bydd rhagor o leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael, a bydd yn rhoi rhyddid i rieni o ran dewis a hyblygrwydd i'w plant gael eu haddysgu trwy'r iaith o'u dewis.

Beth yw'r broses statudol i ymestyn darpariaeth mewn ysgol bresennol?

Mae'r Côt am Drefniadaeth Ysgolion ("y Côt") yn cael ei nodi o dan Adrannau 38 a 39 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Daeth y Côt i rym ar 1 Hydref 2013 ac mae'n gymwys o ran holl gynigion ysgolion sy'n cael eu cyhoeddi drwy hysbysiad statudol ar ôl y dyddiad hwnnw. Bydd y Côt presennol yn cael ei ddiwygio ar 1 Tachwedd 2018. Bydd y broses y byddwn ni'n ei defnyddio yn dilyn y cyfarwyddyd sydd wedi'i nodi yn y ddogfen yma. Rhaid i gynigion i wneud newidiadau rheoledig i ysgolion drwy gynyddu nifer uchaf y lleoedd dros 25% o'u lefelau presennol ddilyn y broses ganlynol:

1. Mae Cabinet y Cyngor yn ystyried y Côt ac yn awdurdodi dechrau proses ymgynghori;
2. Ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori, **rhaid** i'r Cyngor ddarparu dogfen ymgynghori ar gyfer yr ymgynghoreion, a rhoi o leiaf 42 diwrnod iddyn nhw ymateb, a rhaid i o leiaf 20 o'r diwrnodau yma fod yn ddiwrnodau ysgol. Os yw'r Cyngor o'r farn ei bod hi'n briodol, bydd cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod ymgynghori;
3. Mae sylwadau ar yr ymgynghoriad yn cael eu coladu a'u crynhoi gan y Cyngor. Mae'r crynodeb yma, ynghyd ag ymatebion swyddogion y Cyngor eu hunain, yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad ymgynghori cyn pen 13 wythnos o ddiwedd y cyfnod ymgynghori, a phytthefnos cyn cyhoeddi unrhyw hysbysiad statudol, a'i gyflwyno i Gabinet y Cyngor ar gyfer ystyriaeth;
4. Mae Cabinet y Cyngor yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau cyn pen 26 wythnos o ddiwedd y cyfnod ymgynghori. Os 'bwrw ymlaen' yw'r penderfyniad, bydd cam 5 yn cael ei ddilyn. Os bydd opsiwn newydd yn dod i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad y mae Cabinet y Cyngor yn dymuno'i ystyried, yna bydd camau 1-3 yn cael eu dilyn eto;
5. Mae hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi, gan roi cyfnod 28 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrthwynebiadau. **Rhaid** i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol, ac â 15 diwrnod ysgol (heb gynnwys y diwrnod cyhoeddi) yn y cyfnod o rybudd;
6. Os yw gwrthwynebiadau yn cael eu derbyn, **rhaid** i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad gwrthwynebu gan roi crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymatebion iddyn nhw, cyn pen 7 niwrnod gan ddechrau gyda diwrnod penderfyniad yr awdurdod o ran prosesu'r cynigion;
7. Rhaid i Gabinet y Cyngor gyhoeddi ei benderfyniad ar y cynnig cyn pen 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu;
8. Os bydd y cynigion yn cael eu cymeradwyo, dylen nhw gael eu gweithredu yn unol â'r dyddiad sy'n ymddangos yn yr hysbysiad statudol, neu ar unrhyw ddyddiad addasedig wedi hynny.



Ffurflen ar gyfer Ymateb i'r Ymgynghoriad

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i helpu i wneud penderfyniad ar y cynnig isod, byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i chi ateb y cwestiynau canlynol. Nodwch na fyddwn ni'n rhannu unrhyw wybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhoi. Bydd hi'n cael ei defnyddio at ddibenion rhoi adborth i chi yn unig, a hynny yn ôl y gofyn. Bydd unrhyw sylwadau mae modd eu defnyddio i'ch adnabod chi yn cael eu nodi'n ddienw yn adroddiad yr ymgynghoriad. Anfonwch eich ymatebion at:

Cyfarwyddwr Addysg

Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Tŷ Trevithick

Abercynon

CF45 4UQ

neu drwy ffacs: 01443 744224, neu e-bost: CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Y cynnig

Y cynnig yw creu ysgol gynradd ddwy iaith newydd ar gyfer datblygiad tai Llanilid trwy adeiladu ysgol newydd ar safle'r datblygiad, ac yna sefydlu ei darpariaeth, yn y lle cyntaf, yn estyniad i Ysgol Gynradd Dolau.

1. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig? Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn siŵr ☐

Nodwch y rhesymau dros eich dewis

2. Nodwch unrhyw sylwadau neu ystyriaethau eraill yr hoffech chi i ni'u hystyried (croeso i chi gynnwys dalennau ychwanegol os oes angen)

3. Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant disgybl mewn ysgol sy'n cael ei henwi, llywodraethwr ar ysgol sy'n cael ei henwi ac ati.)

4. Enw (dewisol)

5. Rhowch fanylion cyswllt os ydych chi'n dymuno cael gwybod am gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad
-

Diolch am roi o'ch amser i lenwi'r holiadur yma

Anfonwch holiaduron wedi'u llenwi i'r cyfeiriad uchod erbyn 31 Rhagfyr 2018, fan bellaf.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel, yn ogystal â rhoi gwybod i chi ynghylch sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth. I ddysgu am sut mae'ch preifatrwydd wedi'i ddiogelu a sut a pham rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ddarparu gwasanaethau i chi, ewch i'n hysbysiadau preifatrwydd ar gyfer gwasanaethau yma: www.rctcbc.gov.uk/hysbysiadpreifatrwyddgwasanaeth a thudalennau **diogelu data'r** Cyngor yma: www.rctcbc.gov.uk/diogeludata.